

SWYDDOG ADNODDAU DYNOL

TGP Cymru yw'r brif Elusen Hawliau Plant yng Nghymru, sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant a phobl ifanc agored i niwed drwy amrywiaeth o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Ariennir gwasanaethau TGP Cymru gan nifer o gyllidwyr ac maen nhw'n darparu gwasanaethau ar draws Cymru gyfan.



Adran TGP Cymru: Gwasanaethau Cymorth

Yn atebol i: Rheolwr Cyllid ac Adnoddau Dynol

Lleoliad: Prif Swyddfa: Caerdydd / Gweithio Hybrid

Diben y swydd

Cefnogi'r Rheolwr Cyllid ac Adnoddau Dynol a bod yn gyfrifol am gynnal a datblygu systemau a phrosesau Adnoddau Dynol a darparu gwasanaeth Adnoddau Dynol effeithlon ac effeithiol ar gyfer TGP Cymru.

Atebolrwydd / cyfrifoldebau

- Gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer Adnoddau Dynol – delio gydag ymholiadau mewnol ac allanol a materion sy'n ymwneud â lles staff
- Ar y cyd ag eraill, cynnal, rheoli a gweinyddu'r holl gronfeydd data, cofnodion a systemau gwybodaeth cyfrifiadurol ac ar bapur yr Adran Adnoddau Dynol a llunio adroddiadau a rhoi cyngor pan fo angen
- Gweinyddu a monitro systemau a phrosesau Adnoddau Dynol gan gynnwys Recriwtio a Dethol, Profi ac Arfarnu, y Gyflogres (gan gynnwys cyfrifiadau SSP a SMP), Pensiynau
- Cefnogi datblygiad systemau Adnoddau Dynol a hyfforddi staff i'w defnyddio pan fo angen
- Cyfrannu at strategaeth yr Adran Adnoddau Dynol ar gyfer y dyfodol
- Cynnal a meithrin cysylltiadau da â chyfarwyddwyr, rheolwyr gwasanaethau, rheolwyr tîm a gweinyddwyr tîm gan roi cyngor pan fo angen, a hefyd cyd-gysylltu â phersonél proffesiynol allanol perthnasol.
- Dirprwyo ar ran y Rheolwr Adnoddau Dynol a Phensiynau pan fo angen
- Ymgymryd â thasgau wedi'u dirprwyo i gefnogi swyddogaeth weinyddu'r Brif Swyddfa

Ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill a allai fod yn ofynnol yn rhesymol gan y Sefydliad ac sy'n gyson â'r radd

Dangosyddion Perfformiad

- Cyfrifol am gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol a safonau arfer.
- Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel a chydymffurfio â safonau a gofynion statudol, rheoleiddiol, sefydliadol ac arfer gorau.
- Cyflawni amcanion a thargedau'r gwasanaeth.

Cyfrifoldeb rheoli llinell (o 31/10/19):

0

Cyfrifoldeb rheoli cyllideb (o 31/10/19):

£0

Gradd:

MS6

Amodau gwaith:

37 awr yr wythnos gydag ymagwedd hyblyg tuag at yr wythnos waith a fydd yn cynnwys rhywfaint o weithio ar benwythnosau a gyda'r nos ac aros oddi cartref dros nos yn achlysurol i fynychu cyfarfodydd, cynadleddau neu hyfforddiant.

Bydd yn ofynnol teithio i wahanol leoliadau ledled Cymru a'r DU hefyd.

Cymwysterau

- Cymhwyster Adnoddau Dynol Cydnabyddedig/CIPD (Dymunol)
- 5 TGAU A-C

Profiad

Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn a chofnod o gyflawniad yn y canlynol:

- Profiad sylweddol mewn amgylchedd Adnoddau Dynol yn amrywio o'r sylfaenol i'r cymhleth
- Swyddogaethau a phrosesau Adnoddau Dynol
- Materion, polisiau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol
- Llunio a gweithredu gweithdrefnau Adnoddau Dynol
- Ymgymryd â chyflwyniadau a hyfforddiant
- Pecynnau Microsoft Office gan gynnwys Word ac Excel

Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau

Bydd deiliad y swydd yn gallu:

- Gweithio'n effeithiol ym maes Adnoddau Dynol
- Gweithio mewn modd cyfrinachol

- Cynhyrchu canlyniadau o safon uchel a chyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt
- Gweithio'n dda gyda chydweithwyr a phartneriaid a chydabod gwahanol syniadau, safbwyntiau a chefnidiroedd pobl eraill
- Cynllunio a threfnu gwaith a rheoli amser yn effeithiol
- Cyfathrebu yn effeithiol h.y. mynegi gwybodaeth a syniadau mewn modd clir, cryno a chywir; gwranddo'n weithredol a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu.
- Bod yn agored i ddulliau a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd
- Ceisio cyfleodd ar gyfer dysgu parhaus a thwf proffesiynol.
- Defnyddio cynhyrchion Microsoft Office gan gynnwys Office 365
- Hyfforddi a chefnogi staff nad ydynt yn gweithio i'r Adran Adnoddau Dynol

Arall

- Arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau TGP Cymru bob amser a'u hybu mewn eraill
- Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Trwydded yrru lawn a bod â chlodiant (*Mewn rhai amgylchiadau gellir ystyried ymgeiswyr nad ydynt yn gallu gyrru oherwydd bod ganddynt anabledd.*)
- Y gallu i siarad Cymraeg (dymunol)